


Dathlu dwy flynedd o Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth

15/03/2022



Fis yma, rydym yn nodi dwy flynedd o'n menter Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth drwy edrych ar ba mor bell rydym wedi dod, a ble rydym yn mynd nesaf.

Cynlluniwyd [Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#) i fagu sgiliau digidol a hyder ar draws sector treftadaeth y DU, [a lansiwyd ym mis Chwefror 2020](#).

Pan darodd pandemig y coronafeirws (COVID-19) y DU ym mis Mawrth, daeth ffyrdd digidol o weithio yn fwy pwysig nag erioed am gadw sefydliadau i gynnal eu hunain a chysylltu pobl â threftadaeth. Daeth y

fenter i'r amryddawn i **ddiwallu anghenion newydd a brys**, gan helpu miloedd o sefydliadau i ddatblygu eu defnydd o ddigidol.

"Diolch i'n holl sefydliadau partner anhygoel, mae'r fenter wedi gallu darparu cymorth amserol ac effeithiol i ddatblygu'r sgiliau a'r dulliau digidol hanfodol sydd eu hangen i ymateb i heriau'r ddwy flynedd ddiwethaf, ac a fydd yn helpu'r sector ymhell i'r dyfodol."

Josie Fraser, Pennaeth Polisi Digidol y Gronfa Treftadaeth

Hyd yn hyn, mae Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi helpu ac ariannu **65 o brosiectau** ledled y DU, ochr yn ochr â chyllid adfer a'n rhaglen ariannu agored.

I ddathlu, mae prosiectau a ariennir gennym wedi cymryd rhan mewn [ffilm sy'n dathlu'r effaith y mae cyllid Sgiliau Digidol wedi'i chael ar eu sefydliadau](#).

Buom hefyd yn siarad â Phrif Swyddog Gweithredol Wikimedia Lucy Crompton-Reid, sy'n [cynnig ei chynghor arbenigol ar weithio gyda gwirfoddolwyr digidol](#) – sgil hanfodol a amlygwyd yn ein hymchwil [Agweddau a Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth \(DASH\)](#).

Uchafbwyntiau o'r ddwy flynedd ddiwethaf

Ers 2020, rydym wedi ehangu'r fenter mewn ymateb i adborth gan y sector i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer **arloesi digidol, menter a sgiliau busnes**. Mae'r gyllideb gychwynnol wedi treblu o £1.2miliwn i **£3.5m**, gan gynnwys £1m gyda chymorth Cronfa Adfer Diwylliant yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Deall sector treftadaeth y DU

Comisiynwyd dau brosiect ymchwil unigryw gennym. Mae arolygon DASH, dan arweiniad Timmus Ltd, yn cynrychioli meincnodi cynhwysfawr cyntaf sgiliau ac agweddau digidol y sector, ac wedi ein helpu i lunio ein gwaith. Mae cyfanswm o **8,232** o unigolion wedi cymryd rhan, gan ganiatáu i ni ddarparu data a chynghor wedi'u teilwra i **846** o sefydliadau.

Helpu sefydliadau i symud ar-lein yn ystod y pandemig

Er mwyn helpu'r sector i symud eu gwaith ar-lein, cynhaliwyd gweminarau arbenigol a [chanllawiau cyhoeddedig ar bynciau moesegol a chyfreithiol hanfodol, yn ogystal â chyflwyniad i ddysgu ar-lein](#).

Cymorth a hyfforddiant

Gwnaethom ariannu dau sefydliad anhygoel i ddarparu digwyddiadau a gweithgareddau ymarferol, gyda chyfoeth o adnoddau am ddim ar gael o hyd: [Heritage Digital](#), dan arweiniad The Heritage Alliance, a [Digital Heritage Lab](#), dan arweiniad Cymdeithas Marchnata'r Celfyddydau.

Ariannwyd yr [Academi Ddigidol Treftadaeth](#), dan arweiniad Charity Digital Trust, drwy Gyllid Adfer Diwylliant yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r prosiect yma'n cael ei gynnal tan fis **Hydref 2022**, ac mae'n darparu ystod o hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar arloesi digidol, menter a sgiliau busnes.

Helpu sefydliadau lle nad ydynt yn hyderus i ddechrau arni

Rydym yn cefnogi [23 o sefydliadau i ddatblygu eu sgiliau digidol](#), gan gyfuno cyllid â chymorth mentora arbenigol. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu cynnal tan fis **Mai 2022**.

Mae ein tîm desg gymorth Magu Hyder wedi darparu cymorth un-i-un i sefydliadau ledled y DU.

Gwirfoddoli a chydweithio

Dyfarnwyd **£1m** i [17 o brosiectau anhygoel i'w helpu i weithio gyda gwirfoddolwyr digidol](#), o gadeirlannau a chynghorau i dreftadaeth naturiol.

Mae Connected Heritage, a ariennir gan y Loteri Genedlaethol a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn gweld [wyth prosiect yn cydweithio i rannu eu harbenigedd a'u hadnoddau](#).

Beth sydd ar y gweill

Cefnogi uwch arweinwyr

Mae'r ail gylch o [raglen datblygiad proffesiynol Arwain y Sector](#), dan arweiniad Culture24, ar fin dechrau. Cyfres o seminarau ar-lein a digwyddiadau rhwydweithio ar y safle, mae'n dechrau'n cyn bo hir gyda seminar ar ddyfodol gweithio hybrid.

Bydd **Hwb Dysgu Ar-lein Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth** yn lansio ym mis Ebrill, gan ateb 100 cwestiwn digidol gorau'r sector treftadaeth. Mae tri thîm o Gymdeithas Marchnata'r Celfyddydau, Prifysgol Leeds a'r Gynghrair Treftadaeth yn cydweithio ar yr adnodd ar-lein yma.


Cymryd rhan

Dewch o hyd i'n holl newyddion ysbrydoledig ac adnoddau am ddim ar ein [tudalen Sgiliau Digidol](#), a chofrestrwch ar gyfer ein [cylchlythyr](#) i sicrhau nad ydych yn colli allan ar yr hyn sy'n dod nesaf.



Ardebydd hefyd mewn ...

[Minder Kaur Athwal, ymddiriedolwr yn y Digital Skills for Heritage Trust Network. Credyd: Sarah Hayes.](#)



Sut mae Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth wedi ein helpu

Gweithio gyda gwirfoddolwyr digidol